## Y Grawys

### Gweddi yn ystod tymor y Grawys

O Dduw, yr Hwn sy'n cynnal ein hysbrydoedd ac yn llefaru wrthym o awr i awr, deuwn yn wylaidd a gostyngedig ar lwybr gweddi i'th gydnabod am holl fendithion y daith. Maddau i ni ein bod yn anobeithiol am gydnabod dy ddaioni am ein bod yn gadael i'n hunanoldeb lywio ein meddyliau, ac am ein bod yn amharod i adael i'r gorfoledd a ddaw o faddeuant yr Arglwydd ein gorfodi i gyhoeddi'n ddi-ofn wrth ein byd am deyrnas a brenhiniaeth Iesu Grist. Cadw ni rhag amharu ar dy gariad aberthol ond yn hytrach adael iddo berarogli yn ein byw, a'n gorfodi i blygu gerbron y Meddyg Da. Yng ngwahoddiad un o'th weision:

'O Grist, Ffisigwr mawr y byd,
down atat â'n doluriau i gyd;
nid oes na haint na chlwy' na chur
na chilia dan dy ddwylo pur.'

Y Gŵr a fu ar y Groes yw ein gobaith.

'Down yn hyderus atat Ti,
Ti wyddost am ein gwendid ni,
gwellhad a geir ar glwyfau oes
dan law y Gŵr fu ar y Groes.'

Dyro i ni nerth i hunanymwadu er mwyn Crist ac yn ei enw.

'Anadla arnom ni o'r nef
falm dy drugaredd dawel gref;
pob calon ysig, boed yn dyst
fod hedd yn enw Iesu Grist.'

Symudir y beichiau trymion sydd yn ein llethu gan ei air o faddeuant, ac awn ymlaen wedi'n cryfhau fel y gallwn ryngu dy fodd ar air ac ar weithred. Hyn a ofynnwn yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist, yr Hwn a'n dysgodd i ddywedyd gweddi teulu Duw, sef Gweddi'r Arglwydd:

Ein Tad yr Hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy enw. Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol. A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot Ti yw'r deyrnas, a'r nerth a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.